



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

# Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Gethin Owen

Adnabod effeithlonrwydd mewn systemau cynhyrchu bîff a defaid yn Ffrainc

Astudiaeth o'r dulliau a ddefnyddir i leihau effaith diraddiad pridd a gwella cynhyrchiant dan amodau ymylol

FFRAINIC

Awst 2016 - Mai 2017

## 1 Cefndir

Rwy'n cadw 700 o famogiaid a 35 o wartheg sugno mewn partneriaeth â fy rhieni ar fferm Nant-yr-Efail ger Abergele. Rydym yn ffermio 300 erw o dir sy'n berchen i ni ac wedi'i rentu, gyda'r mwyafrif yn laswelltir, gydag oddeutu 30 erw o haidd gwanwyn neu geirch yn cael ei dyfu fel cnwd cyflawn ac i'w gombeinio. Mae'r fferm yn gweithredu system eithaf nodweddiadol o wyna'r ddiadell croesfrid dan do ym mis Mawrth a'r ddiadell o famogiaid Cymreig yn yr awyr agored ym mis Ebrill, gan werthu'r wŷyn ar y bach i St. Merryn. Mae'r gwartheg sugno yn lloea ym mis Ebrill a mis Mai gyda hanner y lloi yn cael eu gwerthu fel gwartheg stôr yn 18 mis, a'r hanner arall yn cael eu pesgi'n 24 mis oed. Rydym yn ceisio sicrhau'r cynhyrchiant gorau o borthiant a dyfir gartref, gan brynu cyn lleied o fewnbynnau â phosibl i mewn.

Penderfynais ymgeisio ar gyfer y rhaglen cyfnewidfa rheolaeth i ymweld â Ffrainc, gan fy mod wedi treulio llawer o amser yn y wlad dros y blynyddoedd, ac wedi siarad gyda ffermwyr o Ffrainc yn ogystal â phobl o'r DU sydd wedi symud yno i fyw, ac rwy'n credu bod yr amrywiaeth a graddfa amaethyddiaeth yn y wlad yn ddiddorol iawn.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Fy amcanion oedd defnyddio'r amser yn ystod fy ymweliadau i archwilio amaethyddiaeth yn Ffrainc mewn mwy o fanylder, i dreulio amser yn gweithio ar fferm Ffrengig nodweddiadol er mwyn bod yn rhan o'r gwaith o ddydd i ddydd, ac i weld yr heriau a'r cyfleoedd a wynebir gan drigolion Ffrainc, fel unigolion yn ogystal â fel diwydiant. Trwy ymweld â nifer o ffermydd gwahanol, roeddwn i hefyd eisiau canfod unrhyw dechnegau a dulliau a fyddai modd eu gweithredu yn fy musnes fy hun er mwyn gwella effeithlonrwydd a gwytnwch.

Roedd gen i ddau brif fater yr oeddwn i eisiau mynd i'r afael â nhw gartref ac i ddysgu amdanynt yn ystod fy ymweliadau a'r cyntaf oedd sut i dyfu cnydau grawn ar y fferm. Mae tyfu grawn ochr yn ochr â da byw yn cynorthwyo'r fferm i fod yn fwy hunangynhaliol ac yn hybu bioamrywiaeth. Dros y blynnyddoedd, rydym wedi bod yn tyfu grawn gwanwyn gan ddefnyddio'r dull confensiynol o aredig, ond gyda'n priddoedd creigiog a thenau, roeddwn yn dal i bryderu ynglŷn â'r diraddiad yn y tymor hir, er eu bod yn cael eu tyfu ar gylchdro gyda gwndwn glaswellt/meillion, ac roedd hefyd yn gostus. Roedd un o'r ffermydd y cefais gyfle i ymweld â hi ar briddoedd ymylol tebyg, ac roedd wedi bod yn defnyddio system gyda chyn lleied o drin y tir â phosibl (min-till) am gyfnod o 15 mlynedd a oedd yn cynnwys cnwd gorchudd parhaol o godlys, system a ddefnyddiwyd gyntaf gan Hubert Charpentier. Fy nod oedd canfod elfennau o'r system hon y byddai modd eu defnyddio ar fy fferm fy hun.

Yn ail, roeddwn yn pryderu am gynaliadwyedd cynhyrchu bîff a defaid yn y tymor hir ar ein fferm. Gan fod mwyafrif ein fferm yn dir ymylol creigiog a serth fel tir pori parhaol, roeddwn yn ymwybodol yn y dyfodol y byddai angen i'r fferm gynhyrchu mwy o lai o fewnbwn (yn enwedig ar ffurf bwyd, gwrtaith, llafur a pheiriannau a brynir i mewn), gan hefyd wella priddoedd. Rydw i bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella cynhyrchiant, yn enwedig trwy wella rheolaeth tir glas.

## 2 Trefniadau

Fy ymweliad cyntaf oedd Normandy, a La Blanche Maison ger St Lo, fferm arbrofol yr adran amaeth rhanbarthol. Yma, roeddent yn treialu dulliau amaeth-ecolegol arloesol o dyfu India corn a grawn gan ddefnyddio amrywiaeth o gnydau gorchudd parhaol. Hefyd yn cael ei dreialu oedd system i sychu glaswellt gan ddefnyddio sychwyr a oedd yn defnyddio sglodion pren fel tanwydd, er mwyn bwydo dwy fuches laeth y fferm.

Y diwrnod wedyn, cefais ymweld â fferm Etienne Lamarre ger Vire, sy'n cadw buches laeth 120 o wartheg, gyda mwyafrif y peiriannau a ddefnyddir ar y fferm yn dod o 'CUMA'. Mae'r CUMA - rhwydwaith o gylchoedd peiriannau yn Ffrainc - yn cael ei ddefnyddio'n eang ym mhob sector, ac yn cael ei ddefnyddio fel dull o ganfod peiriannau a llafur. Mae'r sefydliadau'n cael eu rhedeg gan y ffermwyr gan wneud defnydd ohonynt ynghyd ag unigolion o wasanaethau cefnogi cysylltiedig. Mae'r aelodau'n berchen ar gyfranddaliadau gyda'u CUMA eu hunain, a defnyddir system o gyfrifoldeb dros bob eitem. Mae'r ffermwr unigol wedyn yn talu am ddefnyddio'r peiriant ac unrhyw lafur a ddarperir, gan fod yn fwy cost effeithiol yn gyffredinol na phe byddai contractwr preifat yn cael ei ddefnyddio. Un enghraifft o ddefnyddio'r CUMA ar y fferm benodol hon oedd bod yr holl fwydo'n cael ei wneud gan beiriant bwydo sy'n gyrru ei hun a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfanswm o bum fferm ar rownd ddyddiol.

Treuliodd y diwrnod canlynol yn teithio i lawr i Le Moulin Mou, fferm bîff a chnydau â 600 erw ger Argenton-sur-Creuse yn yr adran Indre, sef fy nghartref dros yr wythnos ganlynol. Mae'r fferm yn cadw buches sugno 120 o wartheg Limousin, gyda lloi gwryw yn cael eu gwerthu fel teirw stôr i'r Eidal a'r heffrod i'r farchnad gartref. Roedd y 250 erw o gnydau â yn cynnwys cylchdro o rêp hadau olew, gwenith, haidd a ffa - roedd y rêp a'r gwenith yn cael ei werthu a'r haidd a'r ffa yn cael eu defnyddio ar y fferm. Roedd y fferm yn defnyddio system 'Charpentier' o drin y tir cyn lleied â phosibl gyda chnwd gorchudd parhaol o Faglys Rhuddlas. Er bod y tir yn cynnwys pridd calchaid, tenau, a bod canol Ffrainc wedi dioddef ei dymor tyfu gwaethaf ers blynyddoedd, roedd cynnyrch cnydau grawn hefyd yn dal i fod oddeutu'r cyfartaledd tymor hir gyda'r mewnbynnau isaf posibl diolch i'r system a ddefnyddir, a oedd wedi gwella strwythur a ffrwythlondeb y pridd yn sylweddol dros amser.

Treuliais ddiwrnod yn ystod yr un wythnos yn ymweld â fferm Hubert Charpentier ei hun ger Chateauroux, a eglurodd y fethodoleg mewn mwy o fanylder, a manteision ariannol ac amgylcheddol y system o'i gymharu â thriniaeth gonfensiynol. Er bod y system yn dibynnu'n rhannol ar y ffaith bod mwyafrif y cnydau grawn yn Ffrainc yn cael eu hau yn yr hydref a'u cynaeafu ym mis Gorffennaf, gan alluogi 3 mis cyfan i'r cnwd gorchudd dyfu cyn y cnwd dilynol, mae elfennau y byddai modd eu defnyddio gyda'r cnydau grawn a heuir yn y gwanwyn yn hinsawdd Cymru.

Cynhaliwyd yr ymweliad nesaf ym mis Ionawr ar fferm gyfnewid arall - Le Gourneix, wedi'i leoli yn adran Creuse yn y rhanbarth Limousin. Roedd y fferm laswellt hon yn cadw buches Limousin o 90 o wartheg, gan werthu teirw stôr unwaith eto i'r farchnad Eidalaid, ond roedd hefyd yn fridiwr blaenllaw o deirw a heffrod bridio. Roedd yr wythnos hon yn cynnwys ymweliad â gorsaf cymhwyso genedlaethol Lanaus, lle mae teirw ifanc yn cael eu hanfon i'w gwerthuso am gyfnod penodol dan amodau safonol, heb eu maldodi. Mae'r orsaf hefyd yn gweithredu fel canolfan ymwelwyr er mwyn i'r cyhoedd ddysgu am y brid Limousin a systemau cynhyrchu bîff.

Cynhaliwyd yr ymweliadau olaf ganol fis Mai, wedi'i lleoli unwaith eto yn Le Gourneix, gydag ymweliad arall â Le Moulin Mou i weld cynnydd y cnydau a sefydliad y cnydau gorchudd a heuwyd yn ystod fy ymweliad cyntaf.

Y fferm olaf i mi ymweld â hi oedd fferm ddefaid Julie a Thimoleon Resneau ger Limoux yn yr adran Aude. Roedd y fferm yn cadw 500 o famogiaid Rouge de Rousillon ar 80ha, ac wedi bod yn defnyddio system bori cylchdro dwys dros y deng mlynedd diwethaf, ar ôl sylweddoli nad oedd modd i'r priddoedd tenau, gwael yn yr ardal barhau'n gynhyrchiol yn y tymor hir gyda systemau rheoli pori confensiynol. Hinsawdd Ganoldirol sydd yn yr ardal, gyda hafau hir, poeth a sych gyda'r nesaf peth i ddim tyfiant glaswellt rhwng diwedd Mai a glawiad tymor yr hydref ym mis Hydref. Roedd y fferm wedi cael ei drawsnewid trwy weithredu isadeiledd wedi'i gynllunio'n dda, ac agwedd ddisgybledig tuag at reoli pori, ynghyd â chanolbwyntio ar strategaeth bori sy'n sicrhau datblygiad pridd a defnyddio cymysgedd hadau sy'n addas i'r amodau. Roedd lefelau cynhyrchiant y fferm bron wedi dyblu, gan ddefnyddio'r un lefelau mewnbwn, ac roedd edrychiad iach a gwyrdd y fferm yn wahanol iawn i'r ardaloedd o'i gwmpas.

Roedd ymweld â'r fferm a chwrrd â'r teulu Resneau yn brofiad dysgu gwerthfawr iawn- er ein bod yn gweithredu mewn hinsoddau gwahanol iawn, mae godre'r Pyrenees a llawer o ucheldiroedd Cymru yn ardaloedd heriol iawn yn ddaeryddol i sicrhau lefel boddhaol o gynhyrchiant. Roedd yn enghraifft wych o sut mae buddsoddi amser ac ymdrech mewn rheoli pori yn cynyddu potensial cynhyrchiant tir ymylol, beth bynnag fo'r hinsawdd.

### 3 Camau nesaf

Yn dilyn yr hyn yr wyf wedi'i ddysgu yn ystod fy ymweliadau, byddaf yn edrych ar fy musnes fy hun o safbwynt gwahanol ac yn gwneud ychydig o newidiadau ymarferol ar fy fferm fy hun.

- Gweithredu system sy'n trin y tir cyn lleied â phosibl (min-till) i dyfu grawn gyda meillion fel cnwd ategol, a allai hefyd gael ei ddefnyddio ar gyfer pori yn yr hydref
- Buddsoddi mewn isadeiledd ac offer a fydd yn fy ngalluogi i bori'r fferm yn ddwys, a gweithredu egwyddorion system pori grŵp (mob grazing) ar rannau mwy creigiog y fferm trwy bori gorchudd mwy a galluogi mwy o sathru er mwyn adeiladu pridd, ffrwythlondeb a chynyddu'r gallu i wrthsefyll amodau sych yn yr haf a gwlyb yn y gaeaf.
- Gan ddibynnu ar ganlyniad trafodaethau masnach Brexit a'r rhagolygon ar gyfer y sector defaid yng Nghymru, edrych ar gyfleoedd i gydweithio gyda'r cysylltiadau yr wyf wedi'u gwneud er mwyn ein galluogi i barhau i ymwneud â chynhyrchu wŷn yn yr UE, ar gyfer marchnad yr UE. Mae nifer o ardaloedd cynhyrchu da byw traddodiadol yn Ffrainc yn wynebu her o ddiboblogi gwledig a diffyg pobl ifanc yn dod i mewn i'r diwydiant amaeth. Mae'r sector defaid yn benodol yn Ffrainc i'w weld yn dioddef o ddiffyg buddsoddiad, graddfa ac effeithlonrwydd. Mae tir yn gymharol rad ac mae nifer o'r systemau cynhyrchu cost isel, seiliedig ar laswellt sydd mewn lle yno o ganlyniad i fewnbwn o'r DU, Iwerddon a Seland Newydd. Pe byddai amodau anffafriol i gynhyrchu wŷn yng Nghymru ar gyfer marchnad yr UE o ganlyniad i'r trafodaethau Brexit, a oes rheswm pam na ellir trosglwyddo'r wybodaeth sydd yn y sector defaid yng Nghymru a'i roi ar waith o fewn yr UE er mwyn bodloni galw cynyddol o Ffrainc a gweddill yr UE am gig oen?

## 4 Prif Negeseuon i'r diwydiant

1. Mae systemau cynhyrchu bîff a chig oen yn Ffrainc yn canolbwyntio llai ar borthiant yn gyffredinol, ond mae rhaglenni gwelliant yn seiliedig ar frid mewn lle.
2. Mae'r diwydiant defaid yn Ffrainc yn brin o raddfa, buddsoddiad ac effeithlonrwydd – cyfle i Gymru roi gwybodaeth ar waith yn Ffrainc er mwyn manteisio ar alw'r UE am gig oen ar ôl Brexit??
3. System wych (ond drud?) mewn lle i annog a chefnogi ffermwyr ifanc i ddechrau ffermio ac i ffermwyr hŷn allu ymddeol
4. Cydweithrediad yn rhan enfawr o ddiwylliant ffermio yn Ffrainc. Masnach o ddydd i ddydd yn cael ei wneud trwy drefniadau cydweithredol ac mae'r 'CUMA' yn cael ei ddefnyddio'n eang. Mae cwmpas i'r Cymry weithredu model Ffrainc o rannu peiriannau
5. Ymwybyddiaeth o newid hinsawdd a diraddiad pridd yn fwy amlwg yn Ffrainc, gyda dulliau arloesol yn cael eu defnyddio i leihau'r effaith. Twf y sector organig hefyd yn fwy datblygedig.
6. Yr agwedd gyffredinol yw nad oes modd i amaethyddiaeth yn Ffrainc oroesi yn ei safle presennol heb daliadau uniongyrchol, ac mae disgwyl iddynt barhau ar ôl 2020

